**WHC (2022) 008**

# CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU

**Dyddiad Cyhoeddi:** Gorffennaf 2022

**STATWS: CYDYMFFURFIO / GWEITHREDU**

**CATEGORI: LLYWODRAETHU GWYBODAETH**

**Teitl:** Cod Ymarfer newydd Rheoli Cofnodion Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2022

**Dyddiad Dod i Ben / Dyddiad yr Adolygiad:** Mai 2023

**I'w weithredu gan:**

Bob gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol
Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG, Awdurdodau Iechyd Arbennig, gwasanaethau gofal sylfaenol sydd â chontract â'r GIG (e.e. meddygfeydd, deintyddion, optometryddion, gwasanaethau ymarferwyr cyffredinol y tu allan i oriau, etc), ac unrhyw sefydliadau eraill sy'n gweithio i'r GIG o dan gontract ac sy'n creu cofnodion (e.e. gwasanaethau gofal eilaidd fel gwasanaethau sganio, gwasanaethau labordy ac asiantaethau), ac Awdurdodau Lleol sy'n comisiynu neu'n darparu gofal cymdeithasol i oedolion a swyddogaethau iechyd y cyhoedd.

**Cam(au) gweithredu:**

Hysbysu'r derbynyddion uchod am gyhoeddi Cod Ymarfer newydd Rheoli Cofnodion Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2022, a chynghori Prif Weithredwyr, Cyfarwyddwyr Gofal Cymdeithasol, Rheolwyr Cofnodion Iechyd a Gofal, a'r holl reolwyr llinell a goruchwylwyr yn y sefydliadau perthnasol, y dylent ei ddefnyddio o fis Mai 2022.

**Anfonwr:**

Philip Bowen, Dirprwy Gyfarwyddwr – Polisi a Chyflawni Digidol, Digidol a Thrawsnewid, y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Enw(au) Cyswllt yng Ngrŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru:**

Rebecca Hazzard, Tîm Polisi Digidol, Technoleg, Digidol a Thrawsnewid, y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, rebecca.hazzard@llyw.cymru, 03000 253250

John Sweeney, Tîm Polisi Digidol, Technoleg, Digidol a Thrawsnewid, y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, john.sweeney@llyw.cymru, 03000 253129

**Dogfen(nau) amgaeedig:** Cod Ymarfer Rheoli Cofnodion Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2022

**Cod Ymarfer Rheoli Cofnodion Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2022**

Diben y Cylchlythyr Iechyd Cymru hwn yw hysbysu pob sefydliad sy'n gweithio yn y GIG yng Nghymru (sef Ymddiriedolaethau'r GIG, Byrddau Iechyd Lleol ac Awdurdodau Iechyd Arbennig), a'r sefydliadau hynny sy'n gweithio o dan gontract gyda'r GIG ac sy'n creu cofnodion (e.e. darparwyr gofal sylfaenol, gwasanaethau gofal eilaidd fel gwasanaethau sganio, gwasanaethau labordy ac asiantaethau), yn ogystal ag awdurdodau lleol yng Nghymru sy'n comisiynu neu'n darparu gofal cymdeithasol i oedolion a swyddogaethau iechyd y cyhoedd, am gyhoeddi Cod Ymarfer Rheoli Cofnodion Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2022, sy'n ddogfen newydd, wedi'i diweddaru. Mae'r cylchlythyr yn cynghori Prif Weithredwyr, Cyfarwyddwyr Gofal Cymdeithasol, Rheolwyr Cofnodion Iechyd a Gofal, a'r holl reolwyr llinell a goruchwylwyr yn y sefydliadau hyn, y dylent ddefnyddio'r Cod Ymarfer hwn o fis Mai 2022.

Gan fod ymchwiliad COVID-19 i'w gynnal, bydd yn hanfodol sicrhau bod ein cofnodion yn gyfredol, yn gynhwysfawr, ac yn cydymffurfio â'r cod hwn.

Mae'r Cod yn seiliedig ar God Ymarfer Rheoli Cofnodion Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2021 a ddatblygwyd gan NHSX yn Lloegr, ac mae'n darparu fframwaith ar gyfer rheoli cofnodion yn gyson ac yn effeithiol ar sail safonau sefydledig a'r ddeddfwriaeth gyfredol. Mae'n cynnwys canllawiau ar bynciau fel cyfrifoldebau cyfreithiol, proffesiynol, sefydliadol ac unigol wrth reoli cofnodion. Mae hefyd yn rhoi cyngor ar sut i gynllunio a gweithredu system rheoli cofnodion, gan gynnwys cyngor ar drefnu, storio, cadw a dileu cofnodion. Mae'n berthnasol i bob cofnod waeth beth fo'r cyfryngau y cânt eu cadw arnynt. Pan fo modd, dylai sefydliadau fod yn symud oddi wrth gofnodion papur tuag at gofnodion digidol.

Cyhoeddwyd y canllawiau diwethaf yn 2000, sef Cylchlythyr Iechyd Cymru *WHC 2000 (71): For the record – Managing Records in NHS Trusts and Health Authorities*. Mae'r cylchlythyr hwnnw bellach wedi'i ganslo a dylid dinistrio unrhyw gopïau. Fe'i disodlwyd gan y Cylchlythyr Iechyd Cymru hwn (WHC (2022) 008) a'r Cod Ymarfer newydd.

Bydd y Cod Ymarfer hwn ar waith am flwyddyn cyn iddo gael ei adolygu, oni bai bod newidiadau i'r ddeddfwriaeth, ac os felly caiff ei ddiweddaru fel y bo'n briodol. Wedi hynny, argymhellir bod y cod yn cael ei adolygu bob pum mlynedd.

Mae Cod Ymarfer Rheoli Cofnodion Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2022 i'w weld yma: Rheoli cofnodion iechyd a gofal cymdeithasol: cod ymarfer 2022 | LLYW. CYMRU